Fforwm Gutun Owain

14 Mai, 2016

Daw dy awr, a chyda hyn
Fe gei eto fyw, Gutun.
Gruffudd Antur

"Mae hi wastad yn heulog braf yn Fforwm Beirdd yr Uchelwyr!" Ydi, mae hon yn dôn gron braidd, ond mae'n berffaith wir, ac ni phrofodd dydd Sadwrn 14 Mai yn eithriad o gwbl!

Gutun Owain, y polymath o'r bymthegfed ganrif, oedd ffocws ein diwrnod eleni, gŵr ac iddo gyswllt arbennig â Glyn-y-groes yn Llangollen. Gwahoddwyd chwe siaradwr i sôn am amrywiol agweddau ar ei ddiddordebau, a dyma grynodeb o'r papurau, yn y drefn y traddodwyd hwy.

Gutun Owain a'i lawysgrifau astrolegol oedd testun difyr **Dr Diana Luft** (Y Ganolfan Geltaidd). Rhoddodd sylw arbennig i'w Lyfr Naturiaeth, testun astrolegol yn trafod pynciau fel y peryglon a all eich wynebu o gael eich geni o dan rhyw arwydd y Sidydd neu pan fydd planed arbennig mewn grym. Esboniodd Dr Luft mai cynrychioli ymgais i ddeall y byd ffisegol a wna testunau o'r fath, testunau a oedd yn boblogaidd iawn yn gyffredinol yn yr Oesoedd Canol.

Cawsom ddarlith gyffrous iawn gan **Gruffudd Antur** (Prifysgol Bangor) a adeiladodd achos cryf dros gymryd mai gŵr o'r enw Siancyn ap Gwilym o Grogeniddon yn Nhraean y Glyn (sef yn ardal y Waun, yn Nanheudwy) oedd tad y bardd Guto'r Glyn, ac mai dyma'r *Glyn* felly a fabwysiadodd y bardd yn rhan o'i enw. Dangosodd fod tystiolaeth ddogfennol yn profi bod y Siancyn ap Gwilym hwn yn filwr bwa a saeth, fel y bu ei fab, Guto.

Gan **Daniel Huws** (Penrhyn-coch) cawsom drosolwg defnyddiol iawn o'r llawysgrifau sydd wedi goroesi yn llawysgrifen Gutun Owain (gan gynnwys ambell lawysgrif sydd bellach wedi ei cholli). Dangosodd pa mor eang oedd diddordebau Gutun – yn cynnwys achau, herodraeth, crefydd, testunau astrolegol a meddygol, gramadeg a hanesyddiaeth. Credir mai yn abaty Glyn-y-groes y bu'n gweithio gan fwyaf, lle y derbyniodd ei addysg, yn ôl pob tebyg.

Fersiwn Cymraeg o Fuchedd Sant Martin a gopïodd Gutun Owain yn ei lawysgrif LlGC 3026C [= Mostyn 88] oedd testun **Dr Jenny Day** (Y Ganolfan Geltaidd). Cyfieithydd y testun, yn ôl pob tebyg, oedd Siôn Trefor o Fryncunallt, y Waun, ac yn ddiweddarach o Bentrecynfrig, ym mhlwyf Llanfarthin: tystiodd Gutun Owain a Guto'r Glyn i'w ddoniau ysgolheigaidd yn eu cerddi iddo. Tynnodd Dr Day, sy'n gweithio ar olygiad newydd o Fuchedd Martin, ein sylw at sawl agwedd ar ddulliau cyfieithu Siôn, a oedd

weithiau'n camddeall y Lladin gwreiddiol ac felly'n camgyfieithu, a thro arall yn addasu ei destun yn fwriadol ar gyfer y gynulleidfa Gymraeg.

Un o fesurau llai hysbys y beirdd oedd dan y chwyddwydr gan **yr Athro Ann Parry Owen**, sef y tawddgyrch cadwynog, mesur hynod o gymhleth a ddyfeisiodd y gramadegydd Einion Offeiriad ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac yr honnir yn gyffredinol fod Dafydd ab Edmwnd wedi ei ddiwygio a'i wneud yn fwy gorchestol yn Eisteddfod Caerfyrddin, tua 1451. Y bwriad oedd ceisio gweld pa oleuni y gallai astudiaeth fanwl o ddatblygiad mesur penodol ei daflu ar berthnasau'r beirdd â'i gilydd ac ar gylch eu dylanwad.

Llawysgrifau achyddol Gutun Owain oedd pwnc **Ben Guy** (Prifysgol Caer-grawnt) i gloi'r dydd. Dangosodd fel y datblygodd Gutun Owain fel golygydd a chopïydd ar hyd ei yrfa o dros deugain mlynedd – yn weithiwr ifanc a brwdfrydig pan ysgrifennai yn llawysgrif Llansteffan 28 ar ddechrau ei yrfa yn 1455/6, a'r dalennau yn edrych braidd yn flêr ac yn cynnwys rhai bylchau; ond erbyn 1497, pan gofnododd achau yn llawysgrif Rylands Welsh 1, yn ysgolhaig aeddfed a chraff, a'r gwaith wedi ei drefnu'n ofalus ar y ddalen.

(o'r chwith) Ben Guy, Diana Luft, Daniel Huws, Dafydd Johnston, Jenny Day, Ann Parry Owen a Gruffudd Antur